

# Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 – Rhan 4: Adran 57

## Achosion pan fo person yn mynegi ei fod yn ffafrio llety penodol

Bydd Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn trawsnewid yn llwyr y ffordd y caiff gwasanaethau cymdeithasol eu darparu yng Nghymru i ddiwallu anghenion yr unigolyn a gwneud gwasanaethau'n gynaliadwy ar gyfer y dyfodol. Bydd yn dod i rym ym mis Ebrill 2016.

Mae'r Ddeddf yn rhoi llais cryfach a rheolaeth wirioneddol i bobl dros y cymorth y mae ei angen arnynt i ddileu rhwystrau i'w llesiant. Mae'n canolbwyntio ar ymyrryd yn gynharach i atal anghenion rhag dod yn ddifrifol, ac mae'n hyrwyddo'r arfer o fuddsoddi mewn adnoddau yn y tymor byr i roi'r gwerth gorau i bwrs y wlad ar y cyfan.

Mae'r Ddeddf hefyd yn hyrwyddo integreiddio rhwng y sectorau iechyd a gofal cymdeithasol i'r graddau mwyaf posibl er mwyn cyflawni canlyniadau llesiant gwell.

Mae'r rheoliadau a'r cod ymarfer statudol mewn perthynas â Rhan 4 (taliadau uniongyrchol a dewis o lety) a Rhan 5 (codi ffioedd ac asesiadau ariannol) yn darparu eglurder a chyfarwyddyd ynghylch adran 57 o'r Ddeddf. Mae'r ddogfen frifio dechnegol hon yn rhoi crynodeb byr o'r ddyletswydd, ond nid dogfen gyfreithiol mohoni.

### Dolenni allweddol:

Rheoliadau drafft – Rheoliadau Gofal a Chymorth (Dewis o Lety) (Cymru) 2015  
[http://www.legislation.gov.uk/wsi/2015/1840/pdfs/wsi\\_20151840\\_mi.pdf](http://www.legislation.gov.uk/wsi/2015/1840/pdfs/wsi_20151840_mi.pdf)

Mae'r rheoliadau hyn wedi cael eu gwneud a byddant yn dod i rym ar 6 Ebrill 2016.

Cod Ymarfer ar Rannau 4 a 5 (Codi Ffioedd ac Aseidiadau Ariannol)  
<http://gov.wales/docs/dhss/publications/151218part4-5cy.pdf>

Cyhoeddwyd y cod ymarfer hwn o dan rannau 4 a 5 o'r Ddeddf ar 18 Rhagfyr 2015. Mae'n dod i rym ar 6 Ebrill 2016.

### Crynodeb o'r ddyletswydd

Pan fydd awdurdod lleol yn diwallu anghenion person o dan adrannau 35 i 38 o'r Ddeddf, neu adrannau 40 i 45, drwy ddarparu neu drefnu i ddarparu llety o fath penodol, a bod y person yn

mynegi ei fod yn ffafrio llety penodol o'r fath, mae'n ofynnol o dan **Adran 57** i'r awdurdod lleol ddarparu neu drefnu'r llety sy'n cael ei ffafrio os yw amodau'r rheoliadau wedi'u bodloni.

Os yw llety sy'n cael ei ffafrio yn ddrutach na'r gost arferol y byddai awdurdod lleol yn disgwyl ei hysgwyo ar gyfer darparu neu drefnu llety o fath penodol, mae'r awdurdod lleol yn gallu ei gwneud yn ofynnol i'r gost ychwanegol gael ei thalu gan berson a nodir yn y rheoliadau.

### Beth mae'n ei wneud?

Pan fwriedir diwallu anghenion person drwy ddarparu llety mewn cartref gofal, mae'r rheoliadau yn sicrhau ei fod yn gallu mynegi ei fod yn ffafrio cartref gofal penodol o'r fath sydd ei angen arno.

Mae'n rhaid i'r rheoliadau gynnwys amodau penodol er mwyn sicrhau bod y llety sy'n cael ei ffafrio gan berson yn gallu diwallu ei anghenion, sef: bod angen llety cartref gofal ar y person; bod y llety yn addas i ddiwallu anghenion y person; a bod darparwr y cartref gofal yn cytuno i letya'r person ar sail telerau'r awdurdod lleol ar gyfer y lleoliad. Os caiff y gofynion hyn eu bodloni, mae'n rhaid i'r awdurdod lleol ddarparu neu drefnu i ddarparu'r llety sy'n cael ei ffafrio gan y person.

Mae'r rheoliadau hefyd yn nodi bod angen talu cost ychwanegol os yw llety o'r fath sy'n cael ei ffafrio yn ddrutach na'r hyn y byddai awdurdod lleol yn disgwyl ei dalu i ddiwallu anghenion cymwys person yn llawn mewn cartref gofal o'r fath.

Os yw'r cartref gofal yn bodloni'r amodau uchod ond ei fod yn ddrutach, mae'n rhaid bodloni amodau'r gost ychwanegol hefyd. Er enghraifft, mae'n rhaid i'r awdurdod lleol fod yn fodlon bod y person sy'n talu'r gost ychwanegol yn gallu gwneud y taliadau dros gyfnod arhosiad y person yn y cartref gofal y mae'n ei ffafrio. Mae'n rhaid i'r person sy'n talu'r gost ychwanegol ymrwymo i gytundeb ysgrifenedig gyda'r awdurdod lleol a chytuno i dalu'r gost ychwanegol. Mae'n rhaid i'r awdurdod lleol sicrhau bod gan y person wybodaeth a chyngor digonol i ddeall telerau'r cytundeb.

Gall y gost ychwanegol gael ei thalu gan drydydd parti, neu mewn amgylchiadau cyfyngedig iawn (a nodir yn y rheoliadau) gan y person y mae ei anghenion yn cael eu diwallu mewn cartref gofal.

Os yw awdurdod lleol yn gwrthod darparu neu drefnu llety sy'n cael ei ffafrio, mae'n rhaid iddo roi datganiad ysgrifenedig i'r person yn egluro pa amod sydd heb ei fodloni ac sydd wedi arwain at beidio â lleoli'r person yn y cartref gofal y mae'n ei ffafrio.

## **Cydweddu â'r Ddeddf**

Mae'r newidiadau rheoleiddio yn cadw'r dewis presennol o drefniadau llety sydd ar gael i berson y mae angen llety mewn cartref gofal arno. Mae'r rheoliadau yn hyrwyddo dewis ac yn sicrhau bod person yn parhau i allu gwneud penderfyniadau a chadw rheolaeth dros sut a ble y mae ei anghenion gofal yn cael eu diwallu.

## **Beth mae hyn yn ei olygu yn ymarferol?**

Mae'r darpariaethau newydd yn cynnwys yr un egwyddorion allweddol ag sydd ar waith ar hyn o bryd o safbwynt dewis llety pobl. Fodd bynnag, maent yn ymestyn y dewis i gartrefi gofal ledled y DU ac yn egluro'r trefniadau yn well drwy bennu gofynion ac amodau clir sy'n

ymwneud yn benodol â sefyllfaoedd lle mae person yn dymuno mynegi ei fod yn ffafrio llety cartref gofal penodol.

## **Rhagor o wybodaeth**

### **Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014:**

<http://www.senedd.cynulliad.cymru/mglIssueHistoryHome.aspx?lId=5664>

### **Rhagor o wybodaeth o wefan Llywodraeth Cymru:**

<http://gov.wales/topics/health/socialcare/?skip=1&lang=cy>

### **Hyb Gwybodaeth a Dysgu Cyngor Gofal Cymru:**

<http://www.cgcywru.org.uk/hyb-deall-y-ddeddf/?force=2>